***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 1

## CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

### *Prif swyddog a staff eraill*

9 (1) Rhaid i'r Cyngor gael prif swyddog.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch penodi prif swyddog, gan gynnwys, yn benodol—

(a) pennu pwy sydd i benodi'r prif swyddog;

(b) y weithdrefn ar gyfer y penodiad hwnnw;

(c) sut y mae telerau ac amodau'r prif swyddog (gan gynnwys tâl, lwfansau, treuliau a phensiynau) i gael eu penderfynu.

(3) Caiff rheoliadau o dan y paragraff hwn—

(a) cymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) unrhyw god ymarfer sy'n ymwneud â phenodiadau i gyrff cyhoeddus, neu

(b) gwneud darpariaeth arall sy'n ymwneud ag unrhyw god o'r fath.

(4) Caiff y Cyngor benodi unrhyw gyflogeion eraill sy'n briodol yn ei farn ef.

(5) Mae cyflogeion (ac eithrio'r prif swyddog) i gael eu penodi ar unrhyw delerau ac amodau (gan gynnwys o ran tâl, lwfansau, treuliau a phensiynau) y mae'r Cyngor yn penderfynu arnynt.

(6) Caiff y Cyngor—

(a) talu pensiynau neu arian rhodd, neu wneud taliadau mewn cysylltiad â hwy, i gyflogeion neu gyn-gyflogeion neu mewn cysylltiad â hwy;

(b) darparu a chynnal cynlluniau (p'un a ydynt yn gyfrannol ai peidio) ar gyfer talu pensiynau ac arian rhodd i gyflogeion neu gyn-gyflogeion neu mewn cysylltiad â hwy.

(7) Mae cyfeiriadau yn y paragraff hwn at bensiynau ac arian rhodd yn cynnwys cyfeiriadau at bensiynau ac arian rhodd i ddigolledu cyflogeion sy'n colli cyflogaeth neu sy'n dioddef colled neu leihad o ran enillion, neu mewn cysylltiad â'r cyflogeion hynny.

(8) Os—

(a) yw unrhyw berson, ar beidio â bod yn gyflogedig gan y Cyngor, yn dod yn aelod o'r Cyngor, neu'n parhau i fod yn aelod o'r Cyngor, a

(b) oedd y person hwnnw, drwy gyfeirio at ei gyflogaeth, yn gyfranogwr mewn cynllun pensiwn a gynhelir gan y Cyngor,

caiff y Cyngor wneud darpariaeth i'r person hwnnw barhau i gyfranogi yn y cynllun hwnnw, ar unrhyw delerau ac amodau y mae'n penderfynu arnynt, fel pe bai gwasanaeth y person fel aelod yn wasanaeth fel cyflogai; ac nid yw unrhyw ddarpariaeth o'r fath i ragfarnu paragraff 7.